

Diogeliadau Amddiffyn Rhyddid: Datblygu Strategaeth Monitro ac Adrodd ar gyfer Cymru a Set Isafswm Data Genedlaethol

Mae yna dri chorff monitro.

- Mae Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru yn monitro'r defnydd o Ddiogeliadau Amddiffyn Rhyddid mewn gwasanaethau iechyd
- Mae Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru yn monitro'r defnydd o Ddiogeliadau Amddiffyn Rhyddid mewn gofal cymdeithasol a gwasanaethu cymorth
- Mae Estyn yn monitro'r defnydd o Ddiogeliadau Amddiffyn Rhyddid mewn lleoliadau addysg.

Strategaeth Monitro ac Adrodd Diogeliadau Amddiffyn Rhyddid i Gymru

Mae'r tri chorff monitro yn datblygu Strategaeth Monitro ac Adrodd Diogeliadau Amddiffyn Rhyddid i Gymru

Nod y Strategaeth yw gwirio:

- Mae byrddau iechyd ac awdurdodau lleol yn amddiffyn hawliau pobl
- Nid yw rhyddid neb yn cael ei gyfyngu heb yr awdurdodiad cywir
- Yr unig reswm dros gyfyngu ar ryddid yr unigolyn yw cadw pobl yn ddiogel
- Dim ond y terfynau a ysgrifennir yn yr awdurdodiad yw'r terfynau ar ryddid unigolyn.

Bydd monitro ac adrodd ar y Diogeliadau Amddiffyn Rhyddid newydd yn:

- Rhoi darlun o sut mae Diogeliadau Amddiffyn Rhyddid yn cael eu defnyddio ledled Cymru
- Helpu i gadw safonau'n uchel.

Mae defnyddio Diogeliadau Amddiffyn Rhyddid yn fater hawliau dynol. Mae hyn yn golygu bod yn rhaid i'r cyrff monitro edrych ar y darlun mawr ac nid casglu gwybodaeth yn unig.

Mae byrddau iechyd ac awdurdodau lleol yn awdurdodi, adolygu a rheoli'r defnydd o Ddiogeliadau Amddiffyn Rhyddid. Rhaid iddyn nhw ddarparu gwybodaeth i'r cyrff monitro am eu defnydd o'r Diogeliadau Amddiffyn Rhyddid. Mae rhestr o'r wybodaeth y bydd angen iddyn nhw ei chasglu. Gelwir hyn yn y Set Isafswm Data Genedlaethol.

Rhaid i bob bwrdd iechyd ac awdurdod lleol wirio drostyn nhw eu hunain sut mae Diogeliadau Amddiffyn Rhyddid yn gweithio'n lleol.

Gall arolygiadau gan y cyrff monitro gynnwys cwestiynau am Ddiogeliadau Amddiffyn Rhyddid. Bydd y cwestiynau'n ymwneud ag a yw'r Diogeliadau Amddiffyn Rhyddid yn cefnogi llesiant pobl.

Bydd y Strategaeth Monitro ac Adrodd newydd yn cael ei datblygu trwy siarad â phawb y mae Diogeliadau Amddiffyn Rhyddid yn effeithio arnyn nhw.

Set Isafswm Data Genedlaethol i Gymru

Bydd rhestr o wybodaeth y bydd angen ei chasglu yng Nghymru ar gyfer pob unigolyn y mae ei ryddid wedi'i gyfyngu o dan Diogeliadau Amddiffyn Rhyddid. Gelwir hyn yn y Set Isafswm Data Genedlaethol.

Mae Iechyd a Gofal Digidol Cymru wedi bod yn cynnal gweithdai i gytuno'n union pa wybodaeth sydd angen ei chasglu a sut i'w chasglu.

Dyma'r eitemau sy'n cael eu hystyried ar gyfer y Set Isafswm Data Genedlaethol ar gyfer Cymru.

1. Rhif Cyfeirnod Digwyddiad Diogeliadau Amddiffyn Rhyddid
2. A yw'n awdurdodiad cychwynnol neu adnewyddiad?
3. Os yn adnewyddiad, nifer yr amseroedd a adnewyddwyd
4. Rhif y GIG (ar gyfer byrddau iechyd) / Cyfeirnod Person (ar gyfer awdurdodau lleol)
5. Enw'r bwrdd iechyd neu'r awdurdod lleol (Corff Cyfrifol)
6. Cyfanswm y lleoliadau/safleoedd ar wahân sydd wedi'u cynnwys yn y trefniadau awdurdodedig
7. Rhif cyfeirnod adnabod y lleoliad
8. Cyfeirnod unigryw'r eiddo
9. Dyddiad Geni
10. Rhyw
11. Ethnigrwydd
12. Dewis iaith

13. A gawsoch wasanaeth yn eich dewis iaith?
14. Anabledd
15. Cyfeiriadedd Rhywiol
16. Dyddiad cychwyn ar gyfer pryd y dechreuodd y broses LPS
17. Os cychwynnwyd y cais o dan y Trefniadau Diogelu wrth Amddifadu o Ryddid neu os oedd yn cynnwys y Llys Gwarchod, pa ddyddiad a ddechreuodd y cais?
18. A oes Person Priodol yn cynrychioli ac yn cefnogi'r unigolyn?
19. A benodwyd Eiriolwr Galluedd Meddyliol Annibynnol?
20. Rheswm dros benodi Eiriolwr Galluedd Meddyliol Annibynnol ai peidio
21. A gwblhawyd Adolygiad Cyn-Awdurdodi gan Broffesiynolyn Galluedd Meddyliol Cymeradwy?
22. Os oedd, beth oedd y rheswm?
23. Penderfyniad Awdurdodi /Dyddiad llofnodi
24. Statws awdurdodi
25. Os nad yw wedi'i awdurdodi – beth yw'r rheswm dros hyn?
26. Dyddiad cychwyn y Cyfnod Awdurdodi
27. Dyddiad gorffen bwriedig
28. Dyddiad gorffen gwirioneddol
29. Rheswm dros orffen gwirioneddol yr awdurdodiad
30. Lle y bo'n berthnasol, a oes cais S21ZA i'r Llys Gwarchod?
31. A roddwyd neu anfonwyd y cofnod awdurdodi at yr unigolyn cyn pen 72 awr ar ôl gwneud y penderfyniad. Os na, beth oedd y rheswm am yr oedi?